# CAN NEWYDD.

# PROFIAD MAB IEUANC WRTH FAR

Edward bach, gâd i mi sychu'r
  Chwys oddiar dy wyneb llon,
Cofio 'rwyf dy bryd a'th degwch
  Pan yn sugno llaeth fy mron ;
Er yn nghanol Dyfroedd Mara,
  Gwyliaf arnat rhag cael cam,
Hyd nes dêl yr anweledig
  I dy ddwyn oddiar dy fam.

CYDGAN.

O ! fy mhrodyr a'm chwiorydd,
  Clywch fy ngweddi, ddystaw lef ;
O ! fy nhad a'm mam anwylaf,
  Cawn gyfarfod yn y nef.

Anwyl fam, 'rwyn myn'd at Iesu—
  Mae'r angylion yn eu gwyn
Wrth fy ngwely gwael yn gwylio,
  Er nas gwelwch chwi rhai hyn ;
O ! fy anwyl mam, anwylaf,
  Pa'm yr wylwch ar fy ol ?
Gras fy Nuw fo'n gymhorth i chwi—
  Mwy ni ddychwel Edward 'nol,

O ! fy mhrodyr, &c.

Ewch i'm blwch, cewch yno arian—
  O ! fy mam, gwrandewch fy llef,
Gefais gan fy chwaer i dalu
  Gweinidogion Brenin Nef ;
Os caf fyw un Saboth eto,
  O ! fy mam na fyddwch drist,
Rho'wch fy aberth gwael ar allor
  Gweinidogaeth Iesu Grist.

O ! fy mhrodyr, &c.

Ffarwel, nhad, rhowch law o ffarwel—
  Gwelaf fryniau'r nefol wlad,
Lle mae myrdd mewn gynau gwynion
  Wrth y bwrdd yn nhy fy Nhad;
De'wch, fy Nhad, i 'mofyn Ceidwad,
  Yr Hwn yw llywydd dae'r a ne',
Gynt fu'n gwaedu ar Galfaria,
  Ac yn marw yn ein lle.

O! fy mhrodyr, &c.

Trwm ffarwelio a'm cyfeillion,
  Brodyr a chwiorydd cu;
Dirwyn mae fy oriau byrion
  Lawr i'r dyffryn tywyll du;
Mae'r cerubiad a'r seraffiad,
  Uriel, Gabriel, ar eu gwen,
Lle mae 'nghyfnither fach yn ddysglaer,
  Yn y byd tudraw i'r bedd.

O! fy mhrodyr, &c.

Clywaf Willie bach yn canu
  Ar orseddfainc wen yr Oen,
Yn mhlith torf o seintiau Seion
  Aeth trwy ymchwydd grym y dòn,
Er bod afon angeu'n arw
  Nid oes dychryn dan fy mron;
Dacw'r Gwr fu drosto i farw
  Heddyw'n tori grym y dòn.

O! fy mhrodyr, &c.

Dyma'r llygad wedi pylu,
  Dyma'r babell yn llesghau,
Dyma'r tafod wedi tewi,
  Dyma'r genau wedi cau,

X 705 227987

Dyma'r tad, a'r fam, a'r brodyr,
A'r chwiorydd oll yn brudd,
Gan obeithio cânt gyfarfod
Ar yr adgyfodiad ddydd.

O ! fy mhrodyr, &c.

Tredegar. D. JONES (Glanwyllt)

[Nid oes rhyddid i neb i argraffu y gân hon h
ganiatad yr Awdwr].

# KEEP A BRAVE HEART STILL

There are sorrows, weary sorrows,
In the daily path of all,
You will find no human bosom
Where they never sadly fall ;
For they come like clouds in summ
Veiling all our happy dreams,
And we languish, never heeding
That the sun behind them beams.

CHORUS.

Let us seek to bear up nobly
With a firm and earnest will,
And whatever ills betide us,
Let us keep a brave heart still

When our brother men around us
To the earth are bowing down,
Let us ever from our forehead
Drive the sad and gloomy frown

For in kindly words of comfort
There is wealth of joy unknown,
And a smile will often cheer them
When the dearest hopes are flown.

Let us seek to bear, &c.

When the world seems cold and dreary,
And our hearts are filled with pain,
When with sad remorse we suffer,
When our toiling seems in vain ;
Then will hope, our lode-star ever,
Prove a consolation dear,
Cheering us when faint and weary,
Giving strength to persevere.

Let us seek to bear, &c.

When on weary beds of sickness,
Longing for the morning light,
Courage is our only comfort
Through the long and weary night ;
With a brave heart look on danger,
Striving e'er to move along,
Lend a helping hand when needed
Aid the weak amidst the throng.

Let us seek to bear, &c.

ies, Printer, &c., 31, Seymour St., Aberdare.